
















# ESGOBAETH LLANELWY

TYFU **FFYDD** • DOD Â **GOBAITH** • DANGOS **CARIAD**

GROW **FAITH** • BRING **HOPE** • DEMONSTRATE **LOVE**

# DIOCESE OF ST ASAPH

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022




# Cyflwyniad gan Esgob Gregory

*Ond y mae'r rhai sy'n disgwyl wrth yr Arglwydd yn adennill eu nerth;*
*Y maent yn magu adenydd fel eryr;*
*Yn rhedeg heb flino ac yn rhodio heb ddiffygio.* (IEseia 40.31)

**Mae'r darn hwn o'r ysgrythur yn ffefryn gan lawer o bobl, ond rwy'n credu ei fod yn arbennig o bwysig i'n Heglwys ni, y Teulu Asaph, ar hyn o bryd, ac yn air oddi wrth Dduw a ddylai fod yn gynhaliaeth i ni. Rydym yn dod trwy'r cyfnod mwyaf heriol i'n Heglwys ers yr Ail Ryfel Byd, a dim ond nawr ydym yn ail afael mewn pethau ac yn canfod ein ffordd i'r dyfodol.**

Pan darodd Covid, mabwysiadodd yr esgobaeth yr egwyddor y dylai 2020 fod yn flwyddyn i adfer, 2021 yn flwyddyn i ymateb a 2022 yn flwyddyn i ail adeiladu. Wel, mae Covid wedi parhau ymhell y tu hwnt i ddiwedd 2020, ond mewn gwirionedd rydym wedi gallu dal at yr egwyddor. Rwyf wedi dathlu mewn man arall y gwydnwch a'r ffydd a welais ym mhob un ohonoch dros y ddwy flynedd diwethaf, ond mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn adeg benodol i osod ein hwynebau tua'r dyfodol.

Rydym wedi ail ganolbwyntio ein cenhadaeth – i dyfu Ffydd, dod â Gobaith a dangos Cariad. Erbyn hyn, mi ddylai pob aelod o'r esgobaeth ei wybod. Rydym wedi cynhyrchu maniffesto yn dangos beth mae'n ei olygu ac wedi cynnwys hyn yn ein holl gyfathrebiadau. Rydym hefyd wedi cynhyrchu – o'r doniau o fewn yr esgobaeth – gwrs sy'n gwahodd pob un ohonom i gysylltu â'r themâu hyn trwy drafodaeth a chyfeillgarwch yn ein heglwysi ac yn ein Hardaloedd Cenhadaeth. Rwy'n gobeithio eich bod chi'n bersonol yn cael eich ysbrydoli gan y geiriau hyn, gan eu bod yn gosod agenda ar gyfer ein bywyd Eglwys ac ar gyfer ein disgyblaeth bersonol. Wrth i ni wynebu'r dyfodol, hoffwn feddwl ein bod yn hwyliog, wedi'n gwreiddio yn ein ffydd, yn obeithiol ynghylch beth mae Duw yn ei addo ar gyfer y dyfodol ac yn barod i droi'n credoau'n weithred o wasanaeth cariadus.



Rydym wedi gofyn i bob Ardal Genhadaeth edrych o ddifri arni ei hunan a phenderfynu beth y bydd yn gallu cael ei gynnal ar gyfer y dyfodol. Mi wn fod hyn wedi bod yn arbennig o anodd i rai, gan ein bod wedi gofyn y cwestiwn ynghylch cynaliadwyedd rhai o'n hadeiladau eglwysig. Er mor annwyl ydyn nhw, weithiau mae'n rhaid gollwng gafael a chydnabod fod cynnal adeilad penodol y tu hwnt i adnoddau'r gynulleidfa, y gymuned a'r esgobaeth, pan na allwn ddwyn oddi wrth Pedr i dalu Paul.

Fodd bynnag, nid a ddylai'r adeilad hwn cael ei gadw neu'i ollwng yw'r cwestiynau go iawn, ond sut y gallwn adeiladu pobl Dduw, a beth sy'n gwasanaethu'r datganiad o Ffydd, Gobaith a Chariad mewn ffordd real a phwerus. Wrth gwrs, nid yw pob eglwys yn gallu bod yn Stryd Gobaith ac ni ddylai rhai o'n heglwysi pentref geisio bod yr hyn na allen nhw fod. Mae bod yn bresenoldeb ffyddlon a thystiolaethu i nerth ffydd sy'n newid bywyd yn gallu bod yn ddigon. Dylai'r Cynlluniau Gweithredu Cenhadaeth, rydym wedi gwahodd pob Ardal Genhadaeth eu cynhyrchu, fod yn gymaint mwy nag am adeiladau – dylai fod ynghylch sut ydym yn gwasanaethu Teyrnas Duw yn ein haddoli, yn ein cyfeillgarwch ac yn ein tystiolaethu.

Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod, hoffwn wahodd pob cymuned eglwys i archwilio beth sy'n eu cyffroi ynghylch Ffydd, Gobaith a Chariad, a sut y gallen nhw fynegi'r rhinweddau hyn mewn modd sy'n angerddol, creadigol a dilys iddyn nhw.

Bydd adroddiad eleni'n cyflwyno gwybodaeth, yn eich herio ac yn eich cyffroi ynghylch nifer o agweddau o'n gwasanaeth yn Nheyrnas Duw a'r synnwyr o egni sy'n tyfu yn ein holl fywyd. Yn benodol, mae'n timoedd esgobaethol eisiau galluogi a rhyddhau'r egni yma yn yr Ardaloedd Cenhadaeth. Bydd fformiwla newydd yn cael ei rannu, wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth, a'r bwriad yw caniatáu a chefnogi twf ac antur. Bydd cenhedlaeth newydd sbon o Eglwysi Canolfan Genhadaeth, wedi'u dylunio i fod yn ganolbwynt ac yn esiampl o bopeth rydym yn ceisio ei gyflawni yn ein bywyd cyffredin. Mae yna raglen eithriadol o greadigol o ymestyn allan a chysylltu ar gyfer ein hysgolion a'u 7,000 o ddisgyblion.

Rydym yn archwilio mynegiannau o'r newydd o weinidogaeth – diaconiaid, caplaniaid ieuenctid a phlant ac efengylwyr yn benodol, yn gweithio yn y gymuned ac addysg bellach. Bydd yna blannu eglwysi, wrth i ni ystyried creu cymunedau newydd sy'n addoli a ffyrdd newydd o ddatgan cariad Duw. Mae ein timoedd esgobaethol gwych - swyddfa'r esgobaeth a'i harbenigwyr, pob un wedi ymrwymo i wasanaethu, galluogi a'ch helpu yn eich gwaith, yn ogystal â'r archddiaconiaid a'u gwasanaeth i roi cefnogaeth i glerigion, lleygwyr ac arweinwyr ardaloedd cenhadaeth. Rwy'n ddiolchgar i'm tîm yn Esgobty, sy'n cynnal fy ngweinidogaeth a gwasanaeth. Yn wir, mae yna doreth o ddawn a galwedigaeth a gwasanaeth, y mae pob un ohonom yn cael ein tynnu iddo wrth gyhoeddi cariad Duw - ac am hyn oll, diolch fo i Dduw!

Sbardunodd Winston Churchill y genedl unwaith adeg rhyfel pan dywedodd: "Does gen i ddim byd i'w gynnig ond gwaed, llafur, dagrau a chwys." Yn ein hesgobaeth ni, bydd yna lafur a dagrau heb os, ond mewn gwirionedd, credaf fod gen i fwy i'w gynnig i chi: hanes Duw sy'n chwilio amdanom, a fu farw i gario'n pechod ni, sy'n ymestyn ei freichiau i'n cofleidio ar y Groes, sy'n datgan maddeuant ac amser derbyniol yr Arglwydd, sy'n cynnig ystyr ac adnewyddiad a llawenydd sydd y tu hwnt i'n deall, sy'n ein galw ar daith ffydd tuag at gyflawnder bywyd. I'r rhai mae eu gobeithion yn yr Arglwydd yn adnewyddu eu nerth, bydd adenydd yr Ysbryd Glân yn curo yn yr awyr yn ein Heglwysi ac yn sibrwd i ni i gredu ac ymddiried a dilyn.

Gregory Llanelwy





# Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith a Dangos Cariad

*Diane McCarthy, Ysgrifennydd yr Esgobaeth*

### TYFU FFYDD, DOD Â GOBAITH A DANGOS CARIAD

**Tyfu Ffydd, Dod â Gobaith a Dangos Cariad. Rhain yw'r gwerthoedd byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Credwn os gallwn ni fyw y gwerthoedd hyn fel Teulu Asaph, yna mi fyddwn yr Eglwys y mae Duw yn ein galw i fod.**

**Mae'r credoau hyn yn ein hysbrydoli i:**

- Alw pobl i ddod yn ddisgyblion Iesu Grist
- Croesawi'r holl bobl, waeth beth yw eu hoedran neu eu cefndir, i Deulu Asaph
- Bod ag ots am y pethau sy'n wirioneddol bwysig i bobl
- Ymateb i anghenion ysbrydol pobl ar adegau pwysig ac arwyddocaol yn eu bywydau
- Gweithio gydag a thros bobl mewn cymunedau a sefydliadau ar draws yr esgobaeth
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd lleol i gyfarfod ag anghenion pobl a gwella eu llesiant
- Agor a rhannu'n hadeiladau gyda'r gymuned gyfan

### FFYDD, GOBAITH A CHARIAD: Y CWRS

Ar Ddydd Iau Dyrchafael 2022, cafodd Ffydd, Gobaith a Chariad: Y Cwrs ei lansio mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Mae'r cwrs, sydd wedi'i ddyfeisio a'i ysgrifennu yn gyfan gwbl gan aelodau o Deulu Asaph, wedi'i ddylunio i annog cysylltiad gyda Thyfu Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad gan yr Ardaloedd Cenhadaeth.

Mae pob sesiwn yn defnyddio cymysgedd o fideo a chwestiynau trafod, gan gynnwys fideo o gyflwyniad byr oddi wrth Esgob Gregory. Rydym yn gobeithio y bydd pobl yn cael eu hannog i ystyried eu stori eu hunain a'u profiadau o Ffydd, Gobaith a Chariad, yn ogystal â rhannu trafodaeth fywiog. Ein gweddi yw y byddwn yn cynhyrchu angerdd ac egni i ymestyn teyrnas Duw yma yng ngogledd a chanolbarth Cymru.



### FFYDD, GOBAITH A CHARIAD AR WAITH!

**Tyfu Ffydd wrth fuddsoddi ble mae gwaith caled a gweinidogaeth yr efengyl yn dwyn ffrwyth.**

**Mae gennym ni eisoes bedair Eglwys Canolfan Weinidogaeth, wedi'u lleoli yn:**

- Eglwys Sant Pedr **Treffynnon**
- Eglwys y Santes Fair yr **Wyddgrug**
- Eglwys Dewi Sant, **Bae Penrhyn**
- Eglwys y Santes Fair y **Trallwng**

Mae Pob Arweinydd Canolfan Genhadaeth yn adeiladau tim mewn modd sy'n cyfarfod â'r cyd-destyn lleol ac yn cydfynd â'r Cynllun Gweithredu Ardal Genhadaeth. Mae'r timoedd Canolfan Genhadaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i weddio gyda'i gilydd, dysgu gyda'i gilydd a rhannu profiadau a syniadau. Er gwaethaf heriau'r ddwy flynedd diwethaf, rydym eisoes yn gweld twf ysbrydol ac mewn nifer yn yr eglwysi hyn – mae Duw yn dda.

**Dod â Gobaith i fwy o bobl ledled gogledd a chanolbarth Cymru.**
Yn ogystal â chefnogi'r cynulleidfaoedd presennol, fe wyddom y dylem ni fod yn plannu cymunedau eglwys newydd a fydd yn cynnig rhywbeth gwahanol ac yn denu pobl newydd i mewn i fywyd gyda Christ. Stryd Gobaith, Wrecsam yw ein Heglwys Adnodd gyntaf ac mae'n denu pobl newydd i mewn i fywyd gyda Christ. Mae Stryd Gobaith yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc a theuluoedd a diwylliant cryf o wahodd a chroesawi. Erbyn hyn rydym yn cynllunio ar gyfer plannu'r eglwysi gyntaf allan o Stryd Gobaith.

**Dangos Cariad i bawb.**
Mae dangos cariad yr un mor bwysig heddiw ag erioed, pan fo cymaint o heriau'n wynebu ein byd. Rydym wedi bod yn falch o lansio 'Mae Hwn yn Gweithio!' yn 2022. Mae'n adnodd rhad ac am ddim sydd ar gael ar wefan yr esgobaeth ac mae'n cyflwyno rhai o'r nifer o brosiectau a gweithgareddau ysbrydoledig sy'n digwydd mewn cymunedau ar draws ein hesgobaeth. Cymerwch gipolwg i weld a oes rhywbeth a allai weithio yn eich cymuned chi. Mae'r hanesion yn gyfoethog ac yn amrywiol, ond maen nhw i gyd yn dangos cariad Duw yn ein bywydau.









# Eco-Eglwys

*Nigel Williams yw Deon Eglwys Gadeiriol Llanelwy a chadeirydd Grŵp Eco-Eglwys yr Esgobaeth*

**Yn 2021, ymunodd Esgobaeth Llanelwy â Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru yn datgan argyfwng hinsawdd. Wrth gymryd y cam hwn, ymrwymodd yr esgobaeth i bolisi Amgylcheddol, yn cydnabod y gallwn, yn ein holl benderfyniadau unigol ac ar y cyd, ddylanwadu ar weithredoedd eraill, gwella llesiant ein chwiorydd a'n brodyr ar draws y byd a holl greaduriaid Duw, yr ydym yn stiwardiaid ohonynt. Fel esgobaeth, rydym hefyd wedi ymrwymo i weithio i ddod yng ngharbon sero-net erbyn 2030, neu gynted â bo'n ymarferol bosibl, ac yn datblygu cynllun gweithredu i'n helpu cyflawni hynny.**

Pasiwyd Polisi Amgylcheddol yr Esgobaeth gan Gynhadledd yr Esgobaeth ym mis Hydref 2021 a hwnnw oedd yr ymrwymiad olaf gofynnol i gyrraedd Gwobr Eco-Esgobaeth Efydd. Cafodd hynny ei gadarnhau gan A Rocha UK ym mis Rhagfyr 2021.

### PLANNU MEWN FFYDD

Cafodd llawer o'r gwaith sylfaenol i annog bod yn Eco-Eglwys ei ddangos yng Nghynhadledd yr Esgobaeth 2021, o dan yr enw Plannu mewn Ffydd. Amlygodd cyfres o ffilmiau'r gwaith sy'n cael ei wneud yn fyd eang, yn genedlaethol ac yn lleol o fewn ein heglwysi ac ysgolion i ofalu am Gread Duw. Mae'r holl ffilmiau ar gael i'w gweld ar wefan yr esgobaeth ar https://dioceseofstasaph.org.uk/diocesan-conference/



### GRŴP ECO-EGLWYS YR ESGOBAETH

Mae Grŵp Eco-Eglwys yr Esgobaeth wedi parhau i gyfarfod i gynllunio gweithgareddau ac i annog eglwysi sy'n cofrestru am wobr Eco-Eglwys. Ym mis Mehefin 2021, comisiynodd y grŵp gyfres o ffilmiau yn nodi'r amrywiaeth o wahanol ffyrdd mae eglwysi'n gallu gofalu am gread Duw. Cafodd y rhain eu dangos mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog ac maen nhw ar gael ar wefan yr esgobaeth ar https://dioceseofstasaph.org.uk/eco-church/eco-church-stories-and-inspiration/

Yn niweddarach yn 2022 i gyd-fynd â Creation Time (Amser Creadigaeth), mae Eco-Grŵp yr Esgobaeth yn bwriadu cynnal *Caru Creadigaeth / Connection to Creation*, Eco-Ffest teulu cyfeillgar yn cael ei rhedeg yn Eglwys Sant Pedr yn Llanbedr. Bydd y diwrnod yn dod â sefydliadau, elusennau, eglwysi ac unigolion ynghyd sydd wedi'u hymrwymo i ofalu am greadigaeth Duw i ddarparu gwybodaeth, gweithgareddau, cyngor a hwyl.

### COFRESTRIADAU ECO-EGWLYSI

Mae llawer o'r eglwysi sydd wedi cyrraedd statws Eco-Eglwys Efydd yn bwrw ymlaen i gyrraedd gofynion y Wobr Arian. Ymysg y rhai sydd wedi cyrraedd y wobr Arian yw:

Eglwys yr Ysbryd Glân ym Mhrestatyn sydd wedi creu gardd o gwmpas ymyl eu maes parcio. Mae'n cynnwys coed ffrwythau, cafnau plannu gyda mefus a thomatos a bylchau yn y ffens sy'n briffyrdd ddraenogod. Mae'r eglwys hefyd yn hyrwyddo Masnach Deg ac wedi gefeillio ei doiledau, oergell, bin a gardd sydd wedi codi ymwybyddiaeth o anghenion byd eang.

Eglwys Sant Pedr yn Llanbedr lle mae creu allor awyr agored wedi creu gwasanaethau eglwys wyllt yn cael eu rhedeg yn rheolaidd a digwyddiadau awyr agored eraill yn y fynwent.

Corpus Christi yn Nghremeirchion lle mae darn o'r hen fynwent wedi'i gadael i fynd yn wyllt gyda blodau brodorol. Adeiladodd grŵp ieuenctid yr Ardal Genhadaeth westy chwilod a gwenyn yn y fynwent ac mae yna orsaf ble mae pobl yn gallu cofnodi'r holl bryfed maen nhw wedi'u darganfod.

Eglwys yr Holl Saint yn Ffynnongroyw ble y daeth tiroedd yr eglwys yn gartref i'r greadigaeth trwy blannu planhigion cyfeillgar i wenyn, tai draenog a gwestai chwilod. Mae yna gynlluniau i ddatblygu man sanctaidd ar gyfer y gymuned yng nghoedwigoedd tir y gwyach. Yn ogystal, datblygodd yr eglwys ei chysylltiadau gyda'r gymuned trwy ymestyn allan, Masnach Deg, addysg a gwybodaeth.

### COFRESTRIADAU ECO-EGLWYSI (YM MIS GORFFENNAF 2022)

- 1 Eco-Esgobaeth Efydd
- 9 Eco-Eglwysi Arian
- 19 Eco-Eglwysi Efydd
- 40 o Eglwys wedi cofrestru sydd heb eto ymgeisio am Wobr hyd yma

Rydym yn gobeithio datblygu tîm o Eco-Hyrwyddwyr lleol a fydd yn cefnogi'r eglwysi i ennill gwobr ac i'n helpu i gyrraedd y cam nesaf ar ein eco-daith - cyrraedd ein gwobr Eco-Esgobaeth Arian. **Os hoffech gymryd rhan, cofiwch gysylltu â ni!**





# Datblygu Grŵp Llywio

*Canon Ganghellor Pam Powell,*
*Cyfarwyddwr Gweinidogaeth*

**Mae'r grŵp llywio datblygu yn ceisio cefnogi'r weinidogaeth, ffurfio a hyfforddi pawb, yn lleygwyr a chlerigwyr, ledled yr esgobaeth.**

### ADDYSG WEINIDOGAETHOL BARHAUS

Mae Padarn Sant yn darparu Addysg Weinidogaethol Barhaus ar gyfer holl weinidogion trwyddedig. Cynhaliwyd rhaglen o gyrsiau byr dros yr haf. Mae Padarn Sant hefyd yn darparu hyfforddiant ar gyfer Gweinidogion newydd eu Trwyddedu am dair blynedd ar ôl eu trwyddedu. Mae hyfforddiant esgobaethol wedi'i ddarparu ar gyfer Gweinidogaeth ar Adegau o Argyfwng, Rhannu'r Daith (gweinidogaeth fugeiliol ar gyfer y rhai sy'n marw a'r rhai mewn profedigaeth) ac Archwilio Gweinidogaeth Wledig.

### GWEINIDOGAETHAU WEDI'U COMISIYNU

Cynhaliwyd hyfforddiant lleol yn yr Ardaloedd Cenhadaeth (neu grwpiau o Ardaloedd Cenhadaeth) ar gyfer Arweinwyr Addoli a Chymhorthion Bugeiliol, gan ddefnyddio deunydd Padarn Sant. Mae un Ardal Genhadaeth yn ystyried hyfforddiant eu hunain ar gyfer pobl sydd eisiau bod yn 'gyswllt teulu bedydd'. Gallai ddarparu deunydd ar gyfer Ardaloedd Cenhadaeth eraill hefyd.

| CATEGORÏAU GWEINIDOGION | NIFER |
|---|---|
| Curadiaid (Llawn amser/cyflogedig) | 8 |
| Curadiaid (Rhan amser/Gweinidogaeth ddigyflog) | 8 |
| Gweinidogaeth lleyg trwyddedig (cyflogedig) | 1 |
| Hyfforddi fel Offeiriad (Cyflogedig) | 6 |
| Hyfforddi fel Offeiriad (Digyflog) | 1 |
| Hyfforddi ar gyfer y Ddiaconiaeth | 3 |
| Wedi derbyn Ffurflen Ymholwr ac yn paratoi ar gyfer Byrddau | 6 |

| GWEINIDOGAETH LLEYG TRWYDDEDIG | NIFER |
|---|---|
| Darllenydd | 28 |
| Darllenydd (PTO) | 26 |
| Hyfforddi fel Darllenydd | 0 |
| Efengylydd | 1 |
| Efengylydd (Church Army) | N/A |
| Hyfforddi fel Efengylydd | 0 |
| Caplan Bugeiliol | 2 |
| Hyfforddi fel Caplan Bugeiliol | 3 |
| Caplan Plant a Phobl Ifanc | 2 |
| Hyfforddi fel Caplan Plant a Phobl Ifanc | 1 (yr1) |
| Rhai sy'n dechrau Hyfforddiant Gweinidogion Lleyg yn 2022 | 1 |
| Rhai mewn dirnadaeth ar gyfer Hyfforddiant Gweinidogion Lleyg | 1 |



### HYFFORDDI GYDA'N GILYDD

Mae cyfleoedd hyfforddi'n cael eu darparu trwy Zoom, wyneb yn wyneb a thrwy sesiynau ar ofyn. Mae hyfforddiant ar gyfer Trysoryddion yn cael ei gynnal yn rheolaidd ar lefel cyflwyno a chanol radd, ac yn cael ei ddarparu'n fewnol gan Adam Taylor. Mae cyrsiau eraill a ddarperir yn cynnwys Cyflwyniad i'r Diwrnod Esgobaethol, Codi Arian a Rhodd Cymorth. Canolbwyntir yn benodol ar hyfforddiant Wardeiniaid Eglwys ac Ymddiriedolwyr yn ystod 2022 / 23, gan gynnwys Cadw'r Drysau ar Agor, Iechyd a Diogelwch ac Asesiad Risg. Bydd yna hefyd fideos hyfforddi byr ar gael i gefnogi Canllawiau Ymddiriedolwyr i'r ardaloedd cenhadaeth.

### YSBRYDOLRWYDD

Ffurfiwyd Grŵp Ysbrydolrwydd yr Esgobaeth yn yr hydref 2021, a'i weledigaeth yw helpu pobl i ddyfnhau eu perthynas â Duw, ble bynnag y maent ar eu taith ar hyn o bryd. Y bwriad yw canolbwyntio ar ddarparu adnoddau a digwyddiadau amrywiol a allai fod o gymorth i'r rhai o wahanol ysbrydolrwydd ar draws yr esgobaeth.

Mae'r digwyddiadau'n cynnwys:

- Archwilio gweddi yng Nghanolfan Ysbrydolrwydd Beuno Sant ym mis Gorffennaf.
- Diwrnod tawel esgobaethol ym Mhennant Melangell ym mis Medi.
- Prynhawn 'Chwarae Duwiol' i deuluoedd yn y Bala ym mis Hydref.
- Noson 'Y Daith o Weddi' gyda'r Arglwydd Rowan Williams, cyn Archesgob Caergaint yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ym mis Tachwedd.

Mae Grŵp Ysbrydolrwydd yr Esgobaeth wedi creu'r adnoddau canlynol:

- Llyfryn Pererindod yr Eglwys Gadeiriol
- Praying for Peace (gan gynnwys gweddïau dros y Wcráin)
- A Little Book of Prayers for those living with Dementia and their Caregivers (cynhyrchwyd ar gyfer Wythnos Gweithredu Dementia).

Mae'r cyfan ar gael yn rhad ac am ddim fel copi caled mewn amryw o eglwysi ac yn electronig ar y wefan.

Mae llyfrynnau bach eraill yn cael eu hel at ei gilydd i'w defnyddio'n anffurfiol ac mae deunydd yn cael ei gasglu ar gyfer casgliad esgobaethol dwyieithog llawer mwy o weddïau a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2023. Bydd tudalennau gweddi presennol gwefan yr esgobaeth yn cael eu diweddaru gyda'r adnoddau ychwanegol hyn, gan gynnwys myfyrdodau byr awdio-gweledol ar weddi.







# Ymgysylltu â'r Grŵp Llywio

*Sarah Wheat, Swyddog Arweiniol y Grŵp Llywio Ymgysylltu*

## THIS WORKS!

Eleni lansiwyd This Works! Lle ydi ar ein gwefan Esgobaethol i rannu syniadau ac ysbrydoliaeth o brosiectau ar draws ein hesgobaeth. Mae'r holl brosiectau wedi cynnwys canolbwyntio ar ymgysylltiad cymdeithasol ac wedi'u hel at ei gilydd o dan y 4 P Saesneg Arwain eich Eglwys i Dwf: Prayer, Presence, Proclamation and Persuasion (Gweddi, Presenoldeb, Datgan a Pherswadio).

Cynhaliwyd y lansiad ar lein ym mis Mawrth 2022 gyda ffilmiau a siaradwyr o bob rhan o'r esgobaeth. Eglurwyd y gwaith maen nhw'n ei wneud, ateb cwestiynau ac annog eraill i gamu allan mewn ffydd yn eu cymuned. Mae gan This Works! Adran adnoddau rydym yn parhau i'w diweddaru gyda theclynnau ymarferol a gwybodaeth i helpu symud y rhwystrau i greu prosiect llwyddiannus.

Gobeithio fod rhywbeth yma i ysbrydoli a chefnogi pobl yn eu heglwys a'u cymuned waeth ble maen nhw yn yr esgobaeth. Rydym yn dal i gasglu cyfraniadau at This Works! Anfonwch fanylion eich prosiect er mwyn cadw'r adnodd yn gyfredol fel rydym yn cefnogi ac yn annog ein gilydd.




## TORRI LLINELLAU CYFFURIAU

Rydym yn dal i weithio gyda The Clewer Initiative i ddarparu sesiynau hyfforddi Torri Llinellau Cyffuriau ar draws yr esgobaeth. Hyd yn hyn mae pedair sesiwn ar lein a phum sesiwn mewn person yn darparu gwybodaeth i grwpiau eglwys, grwpiau cymunedol, i bobl broffesiynol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, rhieni a neiniau a theidiau. Rydym erbyn hyn yn gweithio gyda The Clewer Initiative sy'n peilota eu hadnoddau ysgolion er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth ynghylch ymelwa ar blant gyda'r rhai tebycaf o gael eu targedu gan Gangiau Troseddau Cyfundrefnol. Ein gobaith yw darparu adnoddau ar draws yr eglwysi, cymunedau ac ysgolion er mwyn i ragor o bobl ddod yn ymwybodol o'r niwed a'r effaith negyddol y gallai'r broblem hon eu cael ar draws cymuned a deall beth allen nhw ei wneud i helpu i Dorri Llinellau Cyffuriau.

## FFOADURIAID WCRÁIN

Fel esgobaeth roeddem eisiau sicrhau bod ein hymateb i'r rhyfel yn y Wcráin yn cynnig ychydig o ffyrdd ymarferol i bobl ymateb. Aethom i bartneriaeth gyda Link International a oedd yn creu templed hwb cymunedol i eglwysi a chymunedau a fyddai'n adnodd lleol yn cynnig cefnogaeth i ffoaduriaid, eu teuluoedd a theuluoedd gwestia. Buom yn gweithio gyda Link International i gynnal y tair gwemiar cyflwyniadol gyda thros 100 yn cymryd rhan ym mhob sesiwn. Daeth y rhain â phobl broffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn a'r gymuned a grwpiau eglwys at ei gilydd i rannu eu gwybodaeth a'u profiad o gynnal ac o sefydlu hwb cymunedol. Rydym yn dal i gefnogi'u gwaith, creu cysylltiadau a rhannu adnoddau ar draws yr esgobaeth.




## CEFNOGAETH IECHYD MEDDWL

Yn y blynyddoedd diweddar rydym wedi gweld cynnydd mewn problemau iechyd meddwl yn ein heglwysi a'n cymunedau. Mewn ymateb i hyn, byddwn yn cynnig cyrsiau Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws yr esgobaeth i helpu pobl gael gwybodaeth ymarferol a theclynnau i wneud gwahaniaeth positif ac i roi hyder i bobl adnabod yr arwyddion ymlaen llaw a chynnig cefnogaeth ac annog pobl i gael y cymorth priodol.

Bydd y cyrsiau'n cael eu darparu gan ein hyfforddwyr cymwys ein hunain er mwyn cadw'r gost i lawr ar gyfer y rhai fydd yn mynychu. Mae dod yn Gymhorthydd Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn helpu codi ymwybyddiaeth, yn lleihau'r stigma, yn hyrwyddo iechyd meddwl da ac yn annog adferiad cynnar a mwy o wytnwch.





# Ysgolion

*Jennie Downes, Swyddog Addysg yr Esgobaeth*

**Ym mis Gorffennaf 2022, dathlodd Esgobaeth Llanelwy agoriad swyddogol ei Hysgol Eglwys yng Nghymru fwyaf newydd. Agorwyd Ysgol Cwm Banw yn swyddogol gyda drama wedi'i hysgrifennu a'i pherfformio gan y disgyblion. Ar yr un diwrnod, agorwyd gardd synhwyraidd er cof am Lywodraethwr Ysgol. O fis Medi 2022, bydd Esgobaeth Llanelwy yn gofalu am 50 o Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.**

## CWRICWLWM I GYMRU

Mae newidiadau diweddar a ddaeth trwy Gwricwlwm i Gymru a'r fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi arwain at enghreifftiau rhagorol o ysgolion yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau ac eglwysi lleol.

Cafodd Taith yr Adfent ei hail lansio yn nhymor yr hydref 2021.

Roedd y prosiect wedi'i ddatblygu'n wreiddiol yn 2020, ac yn herio dysgwyr i archwilio beth mae'n ei olygu i fod yn 'chwilio am noddfa a lloches'. Roedd cynllunio cwricwlwm arloesol, defnyddio themâu yn cynnwys 'Perthyn' a 'Rhyfel a Gwrthdaro' wedi galluogi plant i gysylltu â'r storïau heriol ar newyddion bywyd go iawn, y ffoaduriaid yn dianc rhag rhyfel, archwilio'u hofnau a deall y realiti o fod yn ddigartref ac o ddadleoli. Ymysg y canlyniadau i'r plant oedd mwy o empathi a dealltwriaeth o beth mae'n ei olygu i fod wedi'ch dadleoli neu'n ddigartref a gweithrediadau trawsffurfiol megis codi arian, gweithio tuag at gydnabyddiaeth Ysgolion Noddfa a chymryd rhan yn Wythnos Ffoaduriaid ym mis Mehefin 2022.

Fel rhan o'u gwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a 'Cynefin' archwiliodd plant Ysgol St Chad yr Eglwys yng Nghymru waith y bardd Cymreig a'r offeiriad Anglicanaidd, R S Thomas a oedd wedi bod yn gurad yn yr Eglwys yng Hanmer. Creodd a ffilmiodd y dysgwyr eu cerdd eu hunain yn seiliedig ar gerdd R S Thomas 'The Village'. Penllanw'r prosiect oedd creu ffilm o'r enw, Ein Pentref, Ein Cynefin a enillodd wobr gyntaf o £1,000 i'r ysgol yng Nghystadleuaeth Prosiect Menter Ysgolion Welsh Heritage Schools.

## GWASANAETH ENCIL PENAETHIAID

Ym mis Mai 2022, arweiniodd y Parch Dr Sally Harper wasanaeth o Fyfyrdod ac Encil ar gyfer Penaethiaid ac Ymwelwyr yr Esgob o ledled yr Esgobaeth. Y thema oedd Canfod Daear Santaidd. Cafodd y rhai'n bresennol eu gwahodd ar daith a ddechreuodd wrth gyrraedd i roi diolch, a symudodd ymlaen i ddiosg ein beichiau, cario ein gilydd, dawnsio gyda'n gilydd ac yn y pendraw, teithio ymlaen. Roedd hyn yn galluogi penaethiaid i oedi ac ystyried ar ôl beth sydd wedi bod yn ddwy flynedd anodd iawn a gosod yr anawsterau maen nhw wedi'u profi yn nwylo Duw.

Roedd 40 o Benaethiaid ac Ymwelwyr yr Esgob yn bresennol a dyma oedd y cyfle cyntaf i lawer o'n Penaethiaid i ail gysylltu â'u cydweithwyr wyneb yn wyneb. Dros ginio roedden nhw'n gallu sgwrsio a dod at ei gilydd fel cymuned o ysgolion eglwys a rhannu eu profiadau. Wrth adael, derbyniodd y Penaethiaid bag anrheg fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'u gwaith caled a'u hymrwymiad. Aeth y siocled Divine i lawr yn dda iawn!

## GERDDI YSGOLION

Mae dwy ardd ysgol wedi'u creu gan ddefnyddio arian oddi wrth gronfa CRAMP (Capital Repair and Maintenance Programme/ Rhaglen Cynnal a Chadw Cyfalaf) Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rheoli gan yr Esgobaeth. Derbyniodd y gerddi newydd yn Ysgol Eglwys Pentref Penarlâg ac Ysgol St Paul, Isycoed 85% o arian CRAMP.

Ychydig cyn y pandemig, roedd Disgyblion Blwyddyn 3 Ysgol Eglwys Pentref Penarlâg wedi cynllunio datblygu ardal anniben, oedd wedi gordyfu yng nghefn yr ysgol. Roeddynt eisiau'r ardal i fod yn le o noddfa a thangnefedd a datblygwyd y syniad o ardd ffydd. Ymgynghorodd y plant gyda rhieni, disgyblion a staff Eglwys Sant Deiniol cyn dechrau dylunio'r ardd. Mae'r ardal wedi'i mireinio dros y ddwy flynedd diwethaf a chafodd ei hagor yn swyddogol gan yr Archddiacon Andy Grimwood, Mr Platten (cadeirydd y llywodraethwyr) a'r Canon Andrea Jones ym mis Gorffennaf 2022.

Comisiynodd Ysgol St Paul, Isycoed, Gardd Gloestr ar gyfer myfyrio a chefnogi plant gyda'u llesiant.






## Gwaith Plant a Phobl Ifanc

*Hannah Daniels, Swyddog Plant ac Ieuenctid*

**Bu'n flwyddyn o ystyried, newid ac adnewyddu'r gwaith gyda phlant a phobl ifanc yr esgobaeth. Ar ôl 14 o flynyddoedd o wasanaeth yn gweithio gyda phobl ifanc o dan 25 mlwydd oed, rydym yn dweud ffarwel wrth Tim Feak gan ei fod wedi symud i swydd newydd. Gweithiodd Tim gyda brwdfrydedd ac ymroddiad yn ei holl waith ac roedd ei ymrwymiad i gyfarfod ag anghenion ysbrydol pobl ifanc yn ein hesgobaeth yn flaenllaw ym mhopeth yr oedd yn ei wneud.**

Cafodd Hannah Daniels ei phenodi fel y Swyddog Plant ac Ieuenctid newydd yr esgobaeth a dechreuodd ar ei gwaith ym mis Mai. Daw Hannah o gefndir mewn addysg, bu'n athrawes astudiaethau crefyddol am 20 mlynedd yn Llundain a Chaer, ac yn ddiweddar roedd yn arweinydd bugeiliol mewn ysgol uwchradd.

Mae Hannah yn edrych ymlaen at ddatblygu rhaglen ddiddorol a gafaelgar o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws yr Esgobaeth. Y blaenoriaethau pennaf yw adfywio'r aelodaeth o'r Fforwm Ieuenctid, sicrhau fod llais ein pobl ifanc yn cael ei glywed yn glir ac ail sefydlu'r rhaglen gyfnewid ac arweinyddiaeth gydag Esgobaeth Helsinki.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Esgobaeth yn ymrwymo i'w waith gyda phlant a phobl ifanc. Mae Eglwys Ganolfan Genhadaeth yr Wyddgrug wedi cyflogi gweithiwr ieuenctid llawn amser, mae gweithiwr ymgysylltu pob oedran wedi dechrau yn ddiweddar yn Eglwys Ganolfan Genhadaeth Bae Penrhyn ac mae penodiadau tebyg yn cael eu cynnal yn Eglwys Ganolfan Genhadaeth yn y Trallwng ac Eglwys Sant Pedr yn Nhreffynnon. Mae Tim Feak wedi'i benodi fel Caplan Arweiniol yng Ngholeg Cambria ac mae yna gynlluniau i gydweithio gydag ef a'i dîm yn y misoedd i ddod.





## Ariannu

*Martyn Schlangen, Swyddog Ariannu*

Wrth i ni adfer o'r hyn oedd yn ychydig o flynyddoedd eithriadol o anodd, mae'n Hardaloedd Cenhadaeth a'n eglwysi wedi parhau gyda'u gweithgareddau addoli a chymunedol. Mae'n galonogol gweld yr eglwysi yn ystyried gwella'u hadnoddau a bod yn agored i ddargyfeirio er mwyn annog twf.

Mae'r prosiectau a oedd wedi cael eu gohirio erbyn hyn yn ennill momentwm; yn anffodus mae'r arian sydd ar gael yn brin, felly mae'n bwysicach nag erioed fod prosiectau'n cyfarfod â'r meini prawf. Mae'r Adran Ariannu yn dal i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer prosiectau. Mae hynny'n cynnwys cynnig cyngor cychwynnol, cynorthwyo gyda pharatoi cynlluniau'r prosiectau, gweithgareddau codi arian, cyfeirio at ffynonellau o arian posibl a chynorthwyo gyda cheisiadau grant. Mae 26 o strategaethau ariannu wedi'u paratoi ac mae'r rhain wedi llwyddo i helpu codi £252,000 ar gyfer gwahanol brosiectau.

Mae'r Pwyllgor Grantiau'r Esgobaeth wedi parhau i gyfarfod ac i ddarparu. Dyfarnwyd 35 o grantiau adeiladau gwerth cyfanswm o £75,500 tuag at gostau atgyweiriadau hanfodol, cynnal a chadw ac ail archebu prosiectau.

Rhai prosiectau nodedig:

- Y Drenewydd – Cododd eglwys yr Holl Saint £400,000 ar gyfer ei phrosiect ail drefnu. Dechreuodd y gwaith ym mis Chwefror 2022 a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2022.
- Yr Orsedd – Cododd St Paul £198,000 ar gyfer ei ail drefnu. Cwblhawyd y gwaith ym mis Mai 2022.
- Llwyddodd Canolfan Dewi Sant Pensarn yn ei chais i gronfa adfer y Trydydd Sector a derbyniodd £46,853 tuag at y costau rhedeg.
- Rhosesmor – mae St Paul yn anelu at osod toiledau a chegin a chreu rhagor o le i gefnogi'r siop gymunedol sy'n gweithredu yno ac sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr.



# Eiddo

*Ryan Marsh, Arolygwr Eglwysi yr Esgobaeth, Rachel Cutler, Swyddog Cadwraeth a Datblygu Eglwysi, Emyr Wyn Hughes, Arolygwr Esgobaeth*

**Yn ystod 2021 / 22 daeth cynulleidfaoedd ein Heglwysi allan o gyfyngiadau Covid-19 i atgyweirio, ail adeiladu a gwella'u hadeiladau gyda brwdfrydedd o'r newydd. Mae prinder deunyddiau, cyfyngiadau ar faint o weithwyr sydd ar gael a chostau cynyddol deunyddiau sydd yn her ond erbyn hyn mae cynlluniau'n symud ymlaen unwaith eto.**

### EGLWYSI

Bu lawer o'n heglwysi'n defnyddio'r amser yn ystod y cyfnod clo i drefnu amserlenni cynnal a chadw, nodi atgyweiriadau ac ystyried ail archebu mewn ffordd wahanol, a chynnwys ffrydio'n fyw ac addoli ar lein yn eu ceisiadau Ffacwlti. Roedd canolbwyntio ar y gymuned hefyd yn uchel ar yr agenda wrth ystyried sut y bydd eglwysi yn cael eu defnyddio yn y dyfodol. Mae nifer o brosiectau wedi dwyn ffrwyth yn 2021 / 2022 a llawer o gynulleidfaoedd eglwysig yn gweithio gyda brwdfrydedd o'r newydd.

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i gyflawni rhaglen o Archwiliadau Pum Mlynedd ledled yr Esgobaeth Mae'r rhaglen Adolygu Ardal Genhadaeth wedi golygu fod argymhellion ar gyfer y dyfodol wedi eu sefydlu.

Un o'n blaenoriaethau parhaus yw gweithio gyda Hyrwyddwr Newid Hinsawdd Daleithiol i ddatblygu a symud ymateb yr Esgobaeth i Newid Hinsawdd yn ei flaen ac i alw am gyrraedd Carbon Sero Net erbyn 2030. Cewch ragor o wybodaeth am raglen Eco-Eglwys ar dudalennau 6/7.

### NEWIDIADAU I'R TÎM EIDDO

Ffarweliwyd â Michael Plane a gadawodd ym mis Ebrill 2022, i gymryd swydd fel Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Eiddo (Eglwysi a Threftadaeth) gyda Chorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru. Rydym wrth ein bodd yn croesawu Ryan Marsh i'r tîm fel ein Harchwilydd Eglwysi'r Esgobaeth. Erbyn hyn mae Ryan wedi cymryd cyfrifoldeb dros y rhaglen bum mlynedd o archwiliadau ac yn edrych ymlaen at gefnogi pobl ledled yr Esgobaeth gyda rheolaeth eu hadeiladau eglwysig.



### PWYLLGOR YMGYNGHOROL YR ESGOBAETH

Mae Rachel Cutler, ein Swyddog Cadwraeth a Datblygu Eglwysi ac Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth wedi parhau i roi anogaeth, cefnogaeth a chyngor i Eglwysi ar draws yr Esgobaeth. Rachel yw'r person i'ch llywio trwy'r System Ffacwlti Ar Lein mor llyfn â phosibl. Yn ogystal, mae'n cefnogi cydweithwyr yng Nghorff y Cynrychiolwyr yng Nghaerdydd i reoli'r Broses o Gau Eglwysi a gwerthu Eglwysi sydd Wedi Cau.

| NIFER Y FFACWLTI A YSTYRIWYD | WEDI'U CYMERADWYO | HEB EU CYMERADWYO | AR Y GWEILL |
|---|---|---|---|
| Ffacwlti Llawn | 26 | 2 | 13 |
| Rhestr A | 90 | - | - |
| Rhestr B | 36 | - | 3 |

### PERSONDAI

Roedd 2021 / 22 yn flwyddyn heriol arall gyda chyfyngiadau'n cael eu gosod wrth lywio trwy'r bandemig, gan ddylanwadu ar sgôp y gwaith sy'n gallu cael ei wneud i'r portffolio eiddo persondai. Wrth i'r cyfyngiadau esmwythau a phrinder defnyddiau a chyfyngiad ar faint o lafur contractwr sydd ar gael, wedi gwella ychydig, bu cynnydd arwyddocaol yng nghostau deunyddiau a llafur wrth i chwyddiant adeiladu ddal i godi.

Mae'r Bwrdd Eiddo'n dal i gefnogi strategaeth o waredu persondai ble mae perfformiad ynni'r adeilad yn wael neu ble mae angen buddsoddiad sylweddol i uwchraddio a gwella eiddo er mwyn cyfarfod â'r safonau presennol. Mae marchnad dai fywiog wedi rhoi cyfle i waredu eiddo. Fodd bynnag mae eiddo newydd yn profi'n anodd ei brynu gydag ond ychydig o eiddo addas yn dod ar y farchnad. Bu cynnydd arwyddocaol mewn prisiau eiddo wrth i'r gofyn fynd y tu hwnt i'r cyflenwad.

Mae'r prosiect i newid cyn Ficerdy Bae Colwyn yn ddau eiddo ar wahân wedi'i gwblhau. Cymerodd amser hir i'w gwblhau wrth gadw at gyfyngiadau'r cyfnod clo a goresgyn rhwystrau technegol yn gysylltiedig â chyfarfod â'r safonau ar gyfer tai newydd, megis gosod system chwistrellu tân yn gydymdeimladol o fewn eiddo rhestredig. Mae un o'r eiddo erbyn hyn yn cael ei ddefnyddio fel eiddo ar rent tra bo'r llall yn dy i offeiriad.

### YSTADEGAU EIDDO PERSONDY 2021/22:

| | |
|---|---|
| Persondai wedi'u hadnewyddu neu'n barod i gartrefu clerigion | 13 |
| Grantiau a dderbyniwyd ar gyfer gwella tai Clerigion (Elusen Marshalls) | £3,020 |
| Persondai a werthwyd / gwaredwyd | 4 |
| Persondai a Brynwyd / Caffaelwyd | 2 |
| Persondai ar osod | 9 |
| Uwchraddio system gwresogi | 11 |
| Gosodiadau ynni adnewyddol mewn persondai | 3 |





# Cyllid

*Sandra Davies, Swyddog Cyllid*

**Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cynnwys cynrychiolwyr lleyg a chlerigol wedi'u hethol gan eglwysi ar hyd a lled yr esgobaeth, ynghyd ag aelodau ex-officio. Mae holl ardaloedd yr esgobaeth yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd ac mae'r aelodau etholedig yn dod â phrofiad sylweddol i fywyd a chyllid yr eglwys trwy'r cyfarfodydd a thrafodaethau.**

### ADOLYGIAD O 2021 - 2022

Er gwaethaf yr heriau parhaus trwy 2021 ac yn nechrau 2022, mae'r Bwrdd yn dal i stiwardio a chyfarwyddo adnoddau ariannol yr esgobaeth er mwyn cefnogi cenhadaeth, gweinidogaeth a thwf. Rydym yn ddiolchgar i Fwrdd Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a ddarparodd arian argyfwng hael pellach yn ystod 2021 i gefnogi pob un o'r chwe esgobaeth trwy'r pandemig a'r cyfnodau clo dilynol. Penderfynodd y Bwrdd ryddhau'r holl arian argyfwng yn syth i'r Ardaloedd Cenhadaeth er mwyn darparu cefnogaeth hanfodol i'r eglwys ar y ddaear. Ymatebodd yr Ardaloedd.

Cenhadaeth yn arbennig o dda. Roedd yna synnwyr gwirioneddol o gyd-ofal ac atebolrwydd wrth i ni gefnogi'n gilydd trwy'r heriau a chyfyngiadau digynsail o ganlyniad i'r pandemig. The Mission Areas responded magnificently and there was a real sense of mutual care and accountability as we supported one another through the unprecedented challenges and restrictions resulting from the pandemic.

Yn 2021, roedd y Bwrdd wedi cyllidebu ar gyfer gwarged bychan o £7,900 fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i ddychwelyd at gyllideb wedi'i balanso. Y gwarged terfynol ar weithgareddau yw £197,247. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr arbedion a wnaed mewn gwariant a gynlluniwyd oherwydd y cyfyngiadau a oedd yn dal mewn grym gan y pandemig ar ddechrau 2021. Rydym yn falch o adrodd fod costau'n gweinidogaeth wedi'u cynnal yn unol â'r gyllideb wreiddiol, gan adlewyrchu'n hymrwymiad parhaus i weinidogaeth y llinell flaen.

Yr elfen fwyaf o wariant ein hesgobaeth (71% neu £3.3m) yw costau clerigion, gan gynnwys cyflogau, pensiynau a chostau tai. Mae'r Bwrdd hefyd yn dyrannu arian i gefnogi gwaith Grwpiau Llywio'r Esgobaeth ym meysydd allweddol ymgysylltu cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes ac yn cefnogi ac yn datblygu ar gyfer y nifer o wahanol ffurfiau o weinidogaeth. Mae hefyd yn ariannu gwaith Tîm Swyddfa'r Esgobaeth sy'n darparu cefnogaeth hanfodol i fywyd ein heglwysi a'n Hardaloedd Cenhadaeth.




Doedd dim cynnydd yng nghyfanswm lefel y Gyfran Ardal Genhadaeth yn 2021 am y drydedd flwyddyn yn olynol. Arhosodd cyflogau'r clerigion, cyflogau lleyg a'n cyfraniad at gostau tai clerigion hefyd yr un fath. Gostyngodd y grant blynyddol oddi wrth Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn 2021 a bydd y gostwng ymhellach yn 2022. Fodd bynnag, bydd gostyngiad yng nghostau clerigion yn gwneud iawn am hyn gan fod Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru erbyn hyn yn gyfrifol am gyfraniadau i'r cynllun pensiwn clerigion, a oedd o'r blaen yn gost esgobaethol.

Mae Trysoryddion Ardaloedd Cenhadaeth a Thrysoryddion Eglwysi'n dal i weithio'n adeiladol ac yn weddigar gyda'i gilydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a ffyniant ein heglwysi. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'n Cyfarfodydd Cyllid Ardal Genhadaeth unwaith eto ar Zoom yn ystod 2021 ac mae hynny wedi profi'n ffordd effeithlon ac yn effeithiol o weithio. Roeddem wrth ein bodd fod pob un o'r 20 Ardal Genhadaeth yn gymwys am y cynllun disgownt blynyddol am yr ail flwyddyn yn olynol, sy'n deyrnged wirioneddol i'r holl waith ffyddlon sy'n cael ei wneud gan gymaint o bobl ar draws yr esgobaeth.

### CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL – Y BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022 A THU HWNT


- Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth wedi ymrwymo i ariannu mentrau "Tyfu'r Ffydd, Dod â Gobaith, Dangos Cariad" dros y 5 mlynedd nesaf.
- Bydd y cyfan o warged 2021 o £197,247 ar weithgareddau esgobaethol yn cael ei ail fuddsoddi yn y mentrau hyn, ynghyd â'r gwarged o 2020 o £203,981.
- Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth eisoes wedi ymrwymo i ariannu pedair Eglwys Ganolfan Genhadaeth, Canolfan Genhadaeth Arfordir Gogledd Cymru a buddsoddi yn yr Eglwys Gadeiriol a Gweinidogaeth Ddigidol.
- Cyflwyno fformiwla Cyfran Ardal Genhadaeth newydd.
- Bydd y Bwrdd y parhau i weithio'n agos gyda'r esgob i nodi meysydd eraill o dwf sydd angen buddsoddiad.
- Bydd arian ychwanegol yn cael ei dynnu yn ôl y gofyn o Arian Wrth Gefn yr Esgobaeth.

### CYLLIDEB 2022




Golyga hyn, am bob £1 o incwm yr esgobaeth y daw:


- 82c o'r Gyfran Ardaloedd Cenhadaeth
- 9c o'r Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd
- 4c incwm rhentu eiddo
- 2c o incwm o fuddsoddiadau'r esgobaeth
- 3c o ffynonellau eraill megis cymunroddau a grantiau




Golyga hyn, am bob £1 o wariant yr esgobaeth, bod:

- 71c yn mynd ar gostau clerigion, gan gynnwys tai
- 9c yn talu cyflogau tîm Swyddfa'r Esgobaeth
- 7c yn talu am waith y Grwpiau Llywio
- 13c ym mynd ar gostau eraill, megis cefnogaeth gyfreithiol, costau adeiladau, cyfathrebu a rhoi grantiau




# Cadw mewn cysylltiad

Esgobaeth Llanelwy,
Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr,
Llanelwy, LL17 0RD

01745 582245

dioceseofstasaph.org.uk

@StAsaphDiocese

Llofnodwch i dderbyn StAR, ein trosolwg wythnosol o'r hyn sy'n digwydd:
https://dioceseofstasaph.org.uk/st-asaph-round-up-newsletter/



Argraffwyd y llyfryn hwn ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.